Mileniwm newydd hapus iawn i chi i gyd oddi wrthym yn Ysgol Penrhyn-coch.

Dathliadau Nadoligaidd

Dechreuwyd ein dathliadau Nadoligaidd gyda ymweliad Mrs Eirian Dafis a'i haddurniadau Nadolig! Cafwyd sesiwn hwyliog brysur.

Cynhaliwyd ein gwasanaeth Nadolig yn Eglwys Sant Ioan. Cafwyd sesiwn prynhawn a nos gyda phob plentyn yn cymryd rhan. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac i'r plant am berfformio yn wych yn ôl eu harfer.

Yn dilyn y Gwasanaeth y diwrnod canlynol cawsom barti Nadolig, gyda ymweliad gan Siôn Corn. Llawer o ddiolch i bwyllgor Rhieni/Athrawon am drefnu'r bwyd a'r